Uned laith

ADRODDIAD BLYNYDDOL SAFONAU'R GYMRAEG CYNGOR GWYNEDD

EBRILL 2023 HYD AT 31 MAWRTH 2024

CYNGOR GWYNEDD

CYNNWYS

1. **Rhagair**
2. **Crynodeb**
3. **Cefndir**
4. **Sicrhau cydymffurfiaeth â'r safonau**
    - **a. Datblygiadau yn ystod y flwyddyn**
    - **b. Trefniadau cyffredinol**
    - **c. Cwynion**
        - Safon 170: Adrodd ar gwynion iaith
    - **ch. Trosolwg cyffredinol sgiliau iaith**
        - Safon 154: Adrodd ar nifer swyddi a hysbysebwyd yn ystod y flwyddyn yn ôl pob "categori"
        - Safon 151: Adrodd ar niferoedd staff sydd efo sgiliau yn y Gymraeg
    - **d. Hyfforddiant**
        - Safon 152: Adrodd ar nifer yr aelodau o staff a fynychodd gyrsiau hyfforddi
5. **Heriau wrth symud ymlaen – materion sydd angen sylw**

1

RHAGAIR

Cynghorydd Menna Trenholme

Aelod Cabinet Cefnogaeth Gorfforaethol Cyngor Gwynedd
(gyda chefnogaeth am y Gymraeg yn ystod 2023-24)

Rwyf yn hynod falch o'r gwaith sydd yn cael ei wneud o fewn y Cyngor i sicrhau bod trigolion Gwynedd yn gallu defnyddio ein holl wasanaethau drwy gyfrwng y Gymraeg. Gallwn ymfalchïo yn yr adroddiad hwn sy'n dystiolaeth o'r gwaith da sy'n cael ei gyflawni ar draws holl adrannau'r Cyngor.

Mabwysiadwyd y Strategaeth Iaith newydd yn ystod 2023, sydd yn tanlinellu ymroddiad ac ymrwymiad y Cyngor i gynyddu cyfleoedd i bob un o drigolion Gwynedd weld a defnyddio'r Gymraeg mewn gwahanol gyd-destunau. Drwy weithio ar godi statws a chynyddu defnydd pobl o'r iaith ym mhob rhan o'n bywydau, byddwn hefyd gobeithio yn cynyddu'r cymhelliant i eraill ddysgu'r iaith.

Mae'r strategaeth yn rhoi sylw i geisio cynyddu defnydd iaith pobl ifanc dros y blynyddoedd nesaf, gan gynnwys dangos iddynt werth yr iaith fel sgil i'r byd gwaith, a cheisio cynyddu'r cyfleoedd anffurfiol iddynt ddefnyddio'r Gymraeg yn eu bywydau dyddiol. Rhoddir sylw hefyd i sut y gallwn ni gael dylanwad cadarnhaol ar y ffordd mae trigolion yn defnyddio'r Gymraeg yn yr amrywiol ddulliau y mae technoleg yn rhan o'u bywydau. Edrychaf ymlaen at weld rhaglen waith y strategaeth, sy'n canolbwyntio ar gynlluniau neu brosiectau ar feysydd lle mae gan y Cyngor rym a dylanwad i weithredu arnynt, yn cael ei datblygu ymhellach.

Braf yw nodi bod mwyafrif helaeth staff y Cyngor yn gallu siarad Cymraeg, â nifer fawr gyda sgiliau Cymraeg rhugl, sydd yn golygu bod defnydd o'r Gymraeg fel iaith gwaith dydd i ddydd yn dal i fod yn arfer naturiol, a'n bod yn gallu sicrhau gwasanaeth Cymraeg yn rhagweithiol a diofyn.

Mae nifer o gynlluniau eraill ar y gweill gan y Cyngor fydd yn rhoi lle blaenllaw i ffyniant cymunedol a ffyniant yr iaith yn y dyfodol, ac felly wyf yn falch bod Cyngor Gwynedd yn parhau i arwain y gad, ac i edrych y tu hwnt i ddarparu dwyieithog yn unig, drwy roi anghenion y trigolion ac ymrwymiad i weithredu er lles y Gymraeg yn gyntaf.

2 CRYNODEB

98.9% o staff y Cyngor yn meddu ar rhyw fath o sgiliau yn y Gymraeg



82% o'r digwyddiadau hyfforddiant wedi eu cynnal yn Gymraeg gyda chyfieithu ar y pryd

850 o swyddi wedi eu hysbysebu lle roedd sgiliau yn y Gymraeg yn hanfodol

92% o staff y Cyngor yn cyrraedd dynodiad iaith eu swydd

Strategaeth Iaith newydd wedi ei chyhoeddi ar gyfer 2023-2033 gyda gweledigaeth o gynyddu defnydd y Gymraeg ar draws Gwynedd

3 CEFNDIR

DYLETSWYDDAU'R SAFONAU

Mae Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 yn gosod fframwaith cyfreithiol, sydd yn rhoi dyletswydd ar y Cyngor i gydymffurfio â safonau mewn perthynas â'r Gymraeg. Mae safonau unigol yn egluro sut mae disgwyl i sefydliadau ddefnyddio'r Gymraeg mewn gwahanol sefyllfaoedd.

Mae'r dyletswyddau sy'n deillio o'r safonau'n golygu na ddylai'r Cyngor drin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg, ac y dylai'r Cyngor hybu a hwyluso defnyddio'r Gymraeg (sef ei gwneud yn haws i bobl ei defnyddio yn eu bywydau o ddydd i ddydd).

Mae'r Safonau Iaith wedi eu rhannu yn bum maes:

- cyflenwi gwasanaethau
- llunio polisi
- gweithredu
- hybu
- cadw cofnodion

Derbyniodd y Cyngor hysbysiad cydymffurfio gan Gomisiynydd y Gymraeg ar 30 Medi 2015, a hynny o dan Ran 4 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011. Roedd yr hysbysiad yn pennu'r safonau penodol y mae'n ofynnol i'r Cyngor gydymffurfio â hwy, ac ar 30 Mawrth 2016 daeth 147 o safonau yn weithredol, gyda 4 o safonau hybu yn dod yn weithredol ar 30 Mawrth 2017.

Gellir gweld y Safonau y mae'r Cyngor yn gorfod cydymffurfio â nhw yn eu cyfanrwydd, ynghyd â chopi o Bolisi Iaith cyfredol y Cyngor, drwy fynd i dudalen Safonau a Pholisi'r wefan gorfforaethol:

TUDALEN SAFONAU'R GYMRAEG A PHOLISI IAITH

Adrodd yn unol â gofynion safon 170

Mae rhaid i'r Cyngor greu adroddiad blynyddol sy'n darparu gwybodaeth am gydymffurfiaeth gyda Safonau'r Gymraeg. Mae'r union ofynion wedi eu rhestru yn safon 170:

(1) *Rhaid ichi lunio adroddiad ("adroddiad blynyddol"), yn y Gymraeg, mewn perthynas â phob blwyddyn ariannol, sy'n delio â'r modd y bu ichi gydymffurfio â'r safonau gweithredu yr oeddech o dan ddyletswydd i gydymffurfio â hwy yn ystod y flwyddyn honno.*

(2) *Rhaid i'r adroddiad blynyddol gynnwys y wybodaeth a ganlyn (pan fo'n berthnasol, i'r graddau yr ydych o dan ddyletswydd i gydymffurfio â'r safonau y cyfeirir atynt) –*

(a) nifer y cyflogeion sy'n meddu ar sgiliau yn y Gymraeg ar ddiwedd y flwyddyn o dan sylw (ar sail cofnodion a gadwasoch yn unol â safon 151);

(b) nifer yr aelodau o staff a fynychodd gyrsiau hyfforddi a gynigwyd gennych yn y Gymraeg yn ystod y flwyddyn (ar sail cofnodion a gadwasoch yn unol â safon 152);

(c) os cynigiwyd fersiwn Gymraeg o gwrs gennych yn ystod y flwyddyn, y ganran o gyfanswm nifer y staff a fynychodd y cwrs a fynychodd y fersiwn Gymraeg (ar sail cofnodion a gadwasoch yn unol â safon 152);

(ch) nifer y swyddi newydd a'r swyddi gwag a hysbysebwyd gennych yn ystod y flwyddyn a gategoreiddiwyd fel swyddi sy'n gofyn –

i. *bod sgiliau yn y Gymraeg yn hanfodol*
ii. *bod angen dysgu sgiliau yn y Gymraeg pan benodir i'r swydd,*
iii. *bod sgiliau yn y Gymraeg yn ddymunol, neu*
iv. *nad oedd sgiliau yn y Gymraeg yn angenrheidiol, (ar sail y cofnodion a gadwasoch yn unol â safon 154);*

(d) nifer y cwynion a gawsoch yn ystod y flwyddyn a oedd yn ymwneud â'ch cydymffurfiaeth â'r safonau gweithredu yr oeddech o dan ddyletswydd i gydymffurfio â hwy.

4 CYDYMFFURFIAETH Â'R SAFONAU

a) DATBLYGIADAU YN YSTOD Y FLWYDDYN

Prif gyfrwng y Cyngor ar gyfer gweithredu yn unol â'r Safonau Iaith a sicrhau gwasanaethau cyfrwng Cymraeg i drigolion Gwynedd yw ei Bolisi Iaith.

Dros y flwyddyn ddiwethaf mae ymdrechion wedi eu gwneud i atgoffa staff o'r polisi diweddaraf a fabwysiadwyd yn 2022 drwy gyfathrebu mewn dulliau amrywiol gan gynnwys rhoi gwybodaeth yng nghylchlythyr wythnosol y staff, diweddaru e-fodiwl cwrs ymwybyddiaeth iaith, anfon e-byst atgoffa cyson a diweddaru'r wybodaeth ar fewnrwyd y staff. O ganlyniad mae gwell ymwybyddiaeth o'r polisi iaith ymysg staff. Yn ddiau, mae'r ffaith bod pob adran yn adrodd yn flynyddol i Bwyllgor Iaith Cyngor Gwynedd ar weithrediad y polisi iaith a'u cyfraniad i wireddu'r strategaeth iaith hefyd wedi helpu yn ogystal â'r disgwyliad i bob adran gyflawni hunanasesiad adrannol ar gydymffurfiaeth gyda'r polisi iaith a'r safonau. Mae materion sydd wedi codi o'r hunanasesiadau wedi cael sylw a chefnogaeth addas wedi ei chynnig megis sesiwn atgoffa o safonau'r Gymraeg a pholisi iaith ar gyfer rheolwyr gwasanaethau ategol addysg.

Yn nhymor yr hydref mabwysiadwyd strategaeth iaith Gymraeg newydd sef 'Strategaeth Iaith Gwynedd 2023-2033' sy'n ddilyniant i'r strategaeth flaenorol, 'Cynllun Hybu'r Gymraeg yng Ngwynedd 2018-23'. Mae'r strategaeth newydd 10 mlynedd yn adlewyrchu ymrwymiad y Cyngor i hybu a hyrwyddo'r iaith ar draws y sir ac i fodloni'r gofynion a osodir o fewn Safonau'r Gymraeg.

Prif weledigaeth y strategaeth yw cynyddu defnydd o'r Gymraeg, gan ganolbwyntio ar gynlluniau neu brosiectau ar feysydd lle mae gan y Cyngor rym a dylanwad i weithredu arnynt. Nodir bod y Cyngor yn awyddus i weld 100% o blant Gwynedd yn cael y cyfle i siarad a defnyddio'r iaith yn rheolaidd. Mae 5 maes gweithredu cyffredinol sef Iaith y blynyddoedd cynnar, Iaith Dysgu, Iaith Gwaith a Gwasanaeth, Iaith y Gymuned ac Ymchwil a thechnoleg.

Rhoddwyd sylw hefyd i'r Gymraeg ym mhrif gynllun strategol y Cyngor sef 'Cynllun y Cyngor 2023 - 2028' gyda Gwynedd Gymraeg wedi ei nodi fel un o'r saith maes blaenoriaeth y disgwylir i staff weithredu arnynt. Ynddo, mae tri phrosiect sy'n rhoi sylw i'r Gymraeg sef materion moderneiddio ac ehangu'r ddarpariaeth drochi ar gyfer dysgu Cymraeg i blant, hybu defnydd o'r Gymraeg gan drigolion Gwynedd ac adolygu polisi iaith addysg Gwynedd.

Mae mwyafrif helaeth staff y Cyngor yn gallu siarad Cymraeg, a nifer fawr â sgiliau Cymraeg rhugl, sy'n golygu bod defnydd o'r Gymraeg fel iaith gwaith dydd i ddydd yn dal i fod yn arfer naturiol, a'n bod yn gallu sicrhau gwasanaeth Cymraeg yn rhagweithiol ac yn ddiofyn. Mae'r angen i ystyried y Gymraeg, a rôl y Cyngor wrth gynnal cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg o fewn ein cymunedau, hefyd yn arfer naturiol sy'n parhau, ac ni wneir unrhyw benderfyniad ar newidiadau i wasanaethau, neu wrth ddatblygu cynlluniau strategol, heb fod y Gymraeg a datblygu cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg yn rhan greiddiol o'r cynlluniau hynny. Mae'r Cyngor yn parhau i arwain

a mynd y tu hwnt i ofynion y Safonau wrth osod gofynion iaith wrth recriwtio a hefyd wrth gynnal ei holl gyfarfodydd cyhoeddus yn Gymraeg, a hynny yn ddiofyn.

Er mwyn ymgymryd â'r her o gynyddu defnydd o'r Gymraeg ymysg trigolion Gwynedd a chydweithio gyda phartneriaid a rhanddeiliaid allweddol cydlynwyd a chefnogwyd gwaith Fforwm Iaith Gwynedd. Erbyn hyn mae cynrychiolwyr 25 o bartneriaid ar draws y sir yn cyfarfod yn rheolaidd er mwyn trafod a chyd-gynllunio cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg ar draws y sir. O ganlyniad i'r cyd-weithio, penderfynwyd creu is-grŵp pobl ifanc fydd yn cyfarfod yn y flwyddyn nesaf er mwyn gyrru a chyflawni ar brosiect newydd ar y cyd.

Braf yw nodi bod ymgynghorwyr iaith y Cyngor yn aelodau ar fyrddau amrywiol er mwyn bwydo mewn i weithgarwch hybu a hyrwyddo rhanbarthol a chenedlaethol. Mae cynrychiolydd ar Fwrdd Strategaeth Treftadaeth y Byd a'r is-grŵp buddion, yn y gobaith y bydd cyd-weithio rhwng partneriaid yn datblygu ac yn galluogi er casglu data o sut mae'r Gymraeg yn elwa o'r statws a pha effaith mae'r Gymraeg yn ei chael ar lwyddiant partneriaid sy'n rhan o'r statws.

Mae fforwm mewnol Mwy Na Geiriau yn parhau dan arweiniad Cyfarwyddwr Statudol y Gwasanaethau Cymdeithasol ac yn goruchwylio gwaith yr adrannau Oedolion a Phlant yng nghyd-destun fframwaith Mwy na Geiriau. Mae swyddogion o'r Uned Iaith a Chraffu yn mynychu'r fforwm er mwyn sicrhau bod gofynion y Safonau hefyd yn cael eu hamlygu a'u gweithredu ochr yn ochr gyda gofynion Mwy na Geiriau. Mae heriau wedi'u hamlygu mewn perthynas â'r safonau'n cynnwys yr angen i sicrhau canllawiau clir i gartrefi gofal ac ati ar ddefnydd o'r Gymraeg ar y cyfryngau cymdeithasol a'r angen i gael datrysiad ar gyfer timau aml-ddisgyblaethol er mwyn sicrhau nad yw diwallu anghenion ieithyddol unigolion yn ogystal ag anghenion ieithyddol gweithwyr di-Gymraeg o sefydliadau eraill yn creu baich gwaith ychwanegol i'n gweithwyr proffesiynol. Mae swyddogion o'r adrannau yn gweithredu ar y materion hyn wrth iddynt godi.

Dros y flwyddyn ddiwethaf mae sylw wedi ei roi i geisio cael gwell darlun o sgiliau iaith y gweithlu ac ystyried sut y gellir cofnodi defnydd iaith defnyddwyr gwasanaeth yn effeithiol er mwyn hwyluso gweithredu'r cynnig rhagweithiol. Mae'r grŵp hefyd wedi rhoi sylw i ddulliau o hybu'r gwasanaethau Cymraeg sydd ar gael drwy edrych ar y posibilrwydd o gynnwys bathodynnau iaith ar lifrai gweithwyr a chynllunio fideos byr i ddarlunio beth yn union mae'r cynnig rhagweithiol yn ei olygu i weithwyr ar lawr gwlad.

Mae ymgynghorwyr iaith y Cyngor hefyd yn aelodau o Is-grŵp y Gymraeg sydd yn rhan o strwythur Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd a Môn. Dros y flwyddyn ddiwethaf rhoddwyd sylw i heriau recriwtio gweithwyr dwyieithog sy'n siarad Cymraeg mewn cyrff cyhoeddus ar draws gogledd Cymru ar ran tri bwrdd gwasanaethau cyhoeddus y gogledd. Bydd argymhellion ynghylch arfer da yn cael eu cyhoeddi flwyddyn nesaf. Mae hon yn enghraifft dda o rannu adnoddau a chydweithio ar lefel rhanbarthol.

Parhawyd i gynorthwyo Prifysgol Bangor gydag ymchwil sy'n edrych ar agweddau pobl tuag at ddefnyddio gwasanaethau cyfrwng Cymraeg. Rhyddhawyd yr holiadur mis Chwefror gyda'r dyddiad cau ddiwedd mis Ebrill 2024. Hyderwn y bydd y gwaith ymchwil hwn yn gwella ein dealltwriaeth o sut y gallwn ni ddylanwadu ar benderfyniadau ac annog mwy o bobl i ddefnyddio'r gwasanaethau cyfrwng Cymraeg (yn enwedig rhai digidol/ar-lein) sydd yn cael eu darparu gan y Cyngor.

b) TREFNIADAU CYFFREDINOL I GYDYMFFURFIO Â'R SAFONAU

Mae Cyngor Gwynedd yn manteisio ar bob cyfle i hybu a hyrwyddo'r Gymraeg ar draws adrannau'r Cyngor. Dros y flwyddyn ddiwethaf, mae'r canlynol wedi cael sylw arbennig wrth ddilyn camau penodol i gryfhau'r gydymffurfiaeth gyda'r safonau.

Grŵp o safonau	Camau a gymerwyd	Camau i'w cymryd
Hybu - 145, 146 **Gweithredu – 98**	Creu **Strategaeth Iaith Gwynedd 2023-33**, sy'n dangos sut ydym yn mynd ati i hybu'r Gymraeg a hwyluso'r defnydd ar draws y Sir.	Mae cyfarfodydd mewn lle gyda phenaethiaid adrannau ar draws y Cyngor er mwyn cyfuno'r gwaith adrannol i greu rhaglen waith i weithredu ar y Strategaeth Iaith. Pan fydd yn gyflawn, bydd angen hyrwyddo'r strategaeth a'r cynnwys.
Llunio polisi - 88, 89, 90, 91, 92, 93	Cynorthwyo swyddogion wrth gynnwys cwestiynau iaith mewn **Ymgynghoriadau**.	Creu dogfen syml er mwyn atgyfnerthu pwrpas y cwestiynau iaith mewn ymgynghoriadau a chanllawiau clir o'r cwestiynau i'w cynnwys.
Safonau gweithredu - 98 **Safonau polisi – 165**	Hyrwyddo camau **polisi iaith** Cyngor Gwynedd fel negeseuon byr yn 'Gair Wythnosol' i staff Cyngor a diweddaru e-fodiwl ymwybyddiaeth iaith.	Datblygu ffurf newydd i hyrwyddo cynnwys y polisi iaith ymysg staff a thrigolion Cyngor Gwynedd, gan gynnwys cyfathrebu mewnol a chyfryngau cymdeithasol yr Uned Iaith.
Cyflenwi gwasanaethau - 56, 58, 60 **Gweithredu - 121, 122, 124, 126**	Gwaith yn parhau i adolygu'r **systemau technoleg** er mwyn arddel yr iaith Gymraeg a sicrhau eu bod yn cydymffurfio gyda gofynion y safonau.	Bydd gwaith pellach yn sicrhau bod cysondeb defnyddio dyluniadau a chyfeiriadau Cymraeg cywir ar draws y Cyngor er mwyn cydymffurfio gyda'r safonau.

C) CWYNION

Safon 170: Adrodd ar gwynion iaith

Yn unol â threfniadau atebolrwydd ac adrodd mewnol y Cyngor, caiff unrhyw gwynion neu ymholiadau am wasanaethau sydd yn cael eu derbyn mewn perthynas â'r Safonau neu Bolisi Iaith y Cyngor rhwng Ebrill 2023 a Mawrth 2024 eu cofnodi gan yr Uned Iaith a Chraffu, a'u hadrodd i Bwyllgor Iaith y Cyngor fel rhan o'r adroddiad hwn.

Derbyniwyd y cwynion ac ymholiadau isod.

Cwynion Cydymffurfiaeth â'r Safonau Iaith (Comisiynydd y Gymraeg)	
1.	CS1126 - Cyngor wedi rhoi hysbyseb uniaith Saesneg yn y llyfryn 'Sibrydion' (Chwefror 2023) Derbyniodd y Comisiynydd gŵyn fod y Cyngor wedi rhoi hysbyseb uniaith Saesneg yn y llyfryn 'Sibrydion' a ddosbarthwyd o fewn ardal yr achwynydd. Eglurwyd bod y Cyngor wedi talu i hysbysebu yn y cylchgrawn, ond dim hysbyseb ar gyfer blwch gyda manylion cyswllt a logo'r Cyngor ar ochr dde uchaf un dudalen. Nid oedd rheolaeth o gwbl gan y Cyngor dros y wybodaeth a oedd wedi ei chynnwys ar weddill y dudalen. Derbyniwyd yr ymateb ac ni aeth y Comisiynydd ati i ymchwilio i'r mater.
2.	Arwydd stad Rhandir Mwyn, Caernarfon (Mawrth 2024) Derbyniodd y Comisiynydd ymholiad ynghylch arwydd stad newydd o dai yng Nghaernarfon, Rhandir Mwyn, a oedd yn cynnwys y geiriad 'Nos' arno a gofynnwyd a oedd y Cyngor wedi cysylltu gyda pherchennog y safle i unionir sefyllfa. Er nad Cyngor Gwynedd oedd yn gyfrifol am yr arwydd eglurwyd bod y Cyngor eisoes wedi cysylltu gyda pherchennog y stad, cymdeithas dai leol, er mwyn tynnu sylw at y camgymeriad ar yr arwydd ac wedi cael gwybod y bydd yr arwydd yn cael ei newid ganddynt faes o law. Derbyniwyd yr ymateb ac ni aeth y Comisiynydd ati i ymchwilio i'r mater.

CWYNION AC YMHOLIADAU AM WASANAETH NEU YN YMWNEUD Â PHOLISI IAITH Y CYNGOR

	Adran	Gwybodaeth am yr ymholiad / cwyn	Esboniad a chamau a gymerwyd
	Cwynion		
1.	**Cefnogaeth Gorfforaethol**	Cwyn bod hysbyseb swydd Pennaeth Ysgol Llanllyfni wedi'i hysbysebu yn uniaith Saesneg ar wefan gymdeithasol.	Adroddwyd bod yr hysbyseb wedi'i rhannu mewn camgymeriad gan aelod o staff. Erbyn hyn mae camau wedi'u cymryd er mwyn sicrhau bod pob aelod o staff yn ymwybodol o'r Polisi Iaith a'r disgwyliad i hysbysebu swyddi ysgolion y Cyngor yn y Gymraeg yn unig.
2.	**Cefnogaeth Gorfforaethol**	Derbyniwyd cwyn bod polisi recriwtio'r Cyngor yn annheg wrth fynnu bod angen bod yn rhugl yn y Gymraeg ar gyfer pob swydd. Roedd gan yr unigolyn nam clyw oedd yn golygu na allai ddeall na dysgu Cymraeg yn dda. Gan ei fod dan yr argraff bod y gofynion ieithyddol ar swyddi yn golygu bod angen bod yn rhugl, teimlai na allai ymgeisio am swydd efo'r Cyngor. Roedd wedi ei droi i ffwrdd o ganolfan ailgylchu'r Cyngor wrth geisio cyflwyno CV am nad oedd yn gallu siarad Cymraeg. Teimlai felly bod y polisi yn gwahaniaethu yn ei erbyn ac y dylai dderbyn iawndal.	Anfonwyd ymddiheuriad i'r achwynydd am yr ymateb a gafodd yn y ganolfan ailgylchu, ac esboniwyd y polisi o ran gosod gofynion iaith ar swyddi. Edrychwyd ar un o'r swyddi oedd dan sylw gan yr achwynydd (swydd gyrru LGV) a chadarnhau mai lefel Sylfaen/Mynediad oedd y gofynion iaith ar gyfer y swydd honno. Roedd yr Ymgynghorydd Cydraddoldeb yn rhan o ymateb i'r gwyn hon hefyd gan fod yr achwynydd yn honni gwahaniaethu ar sail anabledd. Nid oedd yr achwynydd yn hapus gydag ymateb y Cyngor felly gwnaeth gŵyn i'r ombwdsman. Penderfynodd yr ombwdsman nad oedd am wneud ymchwiliad.

3.	**Amgylchedd**	Cafwyd ymholiad gan aelod o'r cyhoedd a oedd polisi iaith y Cyngor yn berthnasol i faneri sy'n cael eu harddangos gan sefydliadau/busnes ar dir preifat. Holwyd hefyd a oedd modd i'r gwasanaeth cynllunio ymyrryd.	Adroddwyd nad oes gan y Cyngor unrhyw rymoedd cyfreithlon i orfodi busnesau neu sefydliadau i arddangos baneri/arwyddion Cymraeg neu ddwyieithog. Mae rhywfaint o bwerau o fewn y broses gynllunio felly gellir gofyn am arwyddion dwyieithog os yw rhywun yn gwneud cais cynllunio. Eglurwyd bod y Cyngor yn manteisio ar gyfleoedd addas i hyrwyddo defnydd o'r Gymraeg gan fusnesau ac yn ceisio dangos gwerth defnyddio'r Gymraeg iddynt.
4.	**Amgylchedd**	Cwyn am ddefnydd o enwau Saesneg mewn hysbyseb cau strydoedd (rhybuddion a gorchmynion traffig) yn y Wasg, sydd yn groes i Bolisi Iaith y Cyngor	Darparwyd eglurhad bod rhaid i'r Cyngor geisio sicrhau bod dogfennau sydd yn ymwneud a newidiadau i rwydwaith y ffordd yn hollol glir, dealladwy a chynhwysfawr i ddefnyddwyr y ffordd ac o ganlyniad defnyddir enwau'r strydoedd yn y Gymraeg a'r Saesneg, mewn rhybuddion a gorchmynion traffig.
5.	**Priffyrdd, Peirianneg ac YGC**	Derbyniwyd cwyn am arwyddion ffordd uniaith Saesneg a oedd wedi'u gosod yn Llanllyfni ac ar lôn i Benygroes yn rhybuddio trigolion bod y lôn ar gau ar 19eg Gorffennaf.	Anfonwyd ymddiheuriad bod rhai arwyddion uniaith Saesneg wedi eu gosod yn yr ardal ac aethpwyd ati ar unwaith i osod arwyddion dwyieithog. Eglurwyd hefyd bod math gwahanol o arwydd dwyieithog eisoes wedi ei osod gan y Cyngor yn hysbysu bod y gwaith i gychwyn yn yr ardal.
6.	**Cyllid**	Derbyniwyd cwyn fod unigolyn wedi derbyn ffurflen SSP1 uniaith Saesneg gan y gwasanaeth cyflogau.	Ymchwiliwyd i'r sefyllfa a chafwyd gwybod mai camddealltwriaeth gan swyddogion o fewn yr uned a arweiniodd at anfon ffurflen uniaith Saesneg. Ymddiheurwyd a gwnaed trefniadau i sicrhau bod copïau Cymraeg a Saesneg o'r ffurflen yn cael eu hanfon allan yn y dyfodol.

7.	**Cyllid**	Derbyniwyd cwyn bod unigolyn wedi derbyn dogfennau uniaith Gymraeg gan y Gwasanaeth Pensiynau.	Eglurwyd pan ymunodd yr unigolyn gyda'r gronfa bensiwn nad oedd yn rhaid cofnodi dewis iaith unigolyn wrth dderbyn gwasanaeth ond bod hynny wedi newid yn sgil cyflwyno Safonau'r Gymraeg o dan Adran 44 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011. Ymhelaethwyd bod yn rhaid i'r Cyngor weithredu yn unol â Safon 5 sy'n nodi 'Os nad ydych yn gwybod a yw person yn dymuno cael gohebiaeth oddi wrthych yn Gymraeg rhaid ichi ddarparu fersiwn Gymraeg o'r ohebiaeth pan fyddwch yn gohebu â'r person hwnnw.' Gan nad oedd dewis iaith wedi ei gofnodi ar gyfer yr unigolyn anfonwyd gohebiaeth Cymraeg ato. Ategwyd bod Mesur y Gymraeg yn sicrhau hawl yr unigolyn i wasanaethau Cymraeg. Nodwyd nad oes darpariaeth o dan y Mesur sy'n rhoi'r un amddiffyniad a hawl i wasanaethau Saesneg. Ychwanegwyd y bydd dewis iaith yr unigolyn yn cael ei gofnodi ac y bydd copi Saesneg o'r llythyr yn cael ei anfon ato.
8.	**Economi a Chymuned**	Aelod yn cwyno am ddogfennaeth uniaith Saesneg mewn cyfarfod ym Mhwllheli	Comisiynwyd ymgynghorwyr allanol i baratoi cynllun arfaethedig ar gyfer ardal Glandon a harbwr Pwllheli a threfnwyd Sesiwn Galw Heibio gyhoeddus er mwyn cynnig diweddariad ar y gwaith i drigolion a busnesau lleol. Trwy gamgymeriad nid oedd manylion a ddangoswyd ar y cynlluniau wedi'u cyfieithu'n llawn. Rhoddwyd sicrwydd gan yr adran y byddent yn gwirio bod dogfennau dwyieithog yn cael eu darparu gan gwmnïau neu ymgynghorwyr a gomisiynir yn y dyfodol.

9.	**Economi a Chymuned**	Derbyniwyd galwad ffôn gan aelod o'r cyhoedd oedd eisiau gwneud cwyn am wefan Neuadd Dwyfor gan ei bod yn ymddangos yn Saesneg yn gyntaf, a'i fod wedi derbyn e-bost cadarnhau uniaith Saesneg wrth archebu tocynnau.	Eglurwyd bod gwefan Neuadd Dwyfor ar gael yn ddwyieithog ond nad oes gan y Cyngor reolaeth dros ba iaith mae'r cyhoedd yn ei weld yn gyntaf. Ymddengys bod peiriannau chwilio megis Google yn gynyddol yn dangos a chyfeirio at y fersiynau Saesneg o wefannau, hyd yn oed pan fydd unigolyn yn chwilio yn Gymraeg neu pan fydd sefydliad wedi ceisio gosod y Gymraeg fel y dewis diofyn, fel mae'r Cyngor yn ei wneud. Adroddwyd hefyd bod iaith cadarnhad e-bost archebu tocyn yn dibynnu ar ba iaith mae'r cwsmer yn ei defnyddio i brynu'r tocynnau. Os yw'r cwsmer yn cael ei gyfeirio trwy beiriant chwilio at fersiwn Saesneg y wefan mae modd iddynt fynd syth i'r fersiwn Gymraeg drwy bwyso'r botwm Cymraeg,
10.	**Economi a Chymuned**	Derbyniwyd cwyn gan aelod o'r cyhoedd ynghylch amodau ieithyddol a roddir gyda Grantiau Busnes.	Adroddwyd bod Cyngor Gwynedd yn disgwyl i fusnesau sy'n derbyn cefnogaeth grant ymrwymo i gydymffurfio gydag amodau gwahanol gan gynnwys rhai gyda'r iaith Gymraeg ac eraill megis talu'r cyflog byw. Eglurwyd bod yr amodau iaith Gymraeg yn adlewyrchu gwerthoedd craidd ac ymroddiad y Cyngor tuag at sicrhau bod yr iaith yn parhau a ffynnu yn ein cymunedau. Ategwyd hefyd eu bod yn adlewyrchu polisi iaith y Cyngor a'r ddyletswydd statudol i gydymffurfio gyda Safonau'r Gymraeg.
11.	**Economi a Chymuned**	Derbyniwyd cwyn bod swyddogion Cyngor Gwynedd yn ymateb i gwestiynau a ofynnwyd mewn cyfarfod yn y Gymraeg, yn hytrach nag ateb yn yr iaith a ddefnyddiwyd i ofyn y cwestiwn sef Saesneg.	Eglurwyd bod swyddogion yn dilyn polisi iaith Gymraeg y Cyngor ac felly yn siarad Cymraeg mewn cyfarfodydd cyhoeddus. Ategwyd bod darpariaeth cyfieithu ar y pryd ar gael i'r rhai sydd ddim yn deall Cymraeg.

12.	**Tai ac Eiddo**	Derbyniwyd cwyn drwy law aelod am lythyr uniaith Saesneg a dderbyniodd ei etholwr gan yr Adran Tai ac Eiddo.	Adroddwyd bod yr adran fel arfer yn anfon llythyrau ar gyfer Grant Cyfleusterau i'r Anabl yn y Gymraeg a'r Saesneg, mewn ffurf ar wahân, oherwydd cynnwys dwys y llythyr. Yn yr achos hwn, yn anffodus, arweiniodd diffyg staffio'r gwasanaeth at gamgymeriad gweinyddol. Ymddiheurwyd ac anfonwyd fersiwn Cymraeg yn syth. Atgoffwyd staff o'r angen i'r holl staff ddilyn y Polisi Iaith a Safonau'r Gymraeg ym mhob achos.
	<u>Ymholiadau</u>		
13.	**Cefnogaeth Gorfforaethol**	Derbyniwyd ymholiad gan aelod o'r cyhoedd a oes modd i'r Cyngor wneud unrhyw beth ynghylch enwau creigiau Saesneg sy'n cael eu defnyddio ar fapiau OS.	Adroddwyd bod ymrwymiad cadarn wedi ei wneud i warchod enwau lleoedd Cymraeg drwy sefydlu'r Prosiect Gwarchod Enwau Lleoedd. Er nad oes gan Gyngor Gwynedd gyfrifoldeb na phwerau statudol am fapiau cyrff neu sefydliadau eraill fel yr OS nodwyd bod ymdrech wedi'i wneud i ddylanwadu ar eraill i geisio newid y drefn o safbwynt diweddaru mapiau a defnyddio enwau Cymraeg.
14.	**Cefnogaeth Gorfforaethol**	Derbyniwyd galwad ffôn gan aelod o'r cyhoedd yn holi pam bod y Cyngor yn defnyddio un 'c' yn hytrach na dwy 'c' yn enw Cricieth	Eglurwyd bod sawl ffurf i rai enwau a sawl sillafiad gwahanol ond bod y Cyngor yn ceisio cysoni'r enwau a ddefnyddir yn fewnol ac yn allanol. Eglurwyd mai dyma sy'n cael ei argymell gan Gomisiynydd y Gymraeg yn eu rhestr enwau lleoedd.
15.	**Priffyrdd, Peirianneg ac YGC / Cefnogaeth Gorfforaethol**	Cafwyd cais gan aelod o'r cyhoedd i newid ei chyfeiriad i gynnwys un 'c' yng Nghricieth yn hytrach na dwy 'c' ar holl systemau Cyngor sy'n cynnwys ei chyfeiriad.	Eglurwyd bod nifer o systemau technoleg gwybodaeth gwahanol gan y Cyngor sy'n cadw gwybodaeth am gyfeiriadau ac na ellir diwygio pob un ar unwaith. Ategwyd bod gwaith yn cael ei wneud i geisio cysoni enwau lleoedd a ddefnyddir gan staff a bod y Cyngor yn arddel yr enw Cricieth efo un 'c' . Dyma hefyd sydd yn rhestr enwau llefydd Comisiynydd y Gymraeg. Fodd bynnag pwysleisiwyd bod y Cyngor yn parchu hawl eraill i ddefnyddio dwy c os ydynt yn dymuno.

CH) TROSOLWG CYFFREDINOL SGILIAU IAITH

Yn yr adran hon, ceir trosolwg o ddata yn ymwneud â sgiliau iaith staff a dynodiadau iaith swyddi. Yn unol â'n Polisi Iaith Gymraeg, mae Cyngor Gwynedd yn dilyn yr egwyddorion canlynol:

- ***Mae'r Gymraeg yn cael ei hystyried yn sgil hanfodol ar gyfer pob swydd o fewn y Cyngor.***
- ***Rhaid i ofynion ieithyddol pob swydd gael eu hasesu yn erbyn y fframwaith iaith.***
- ***Bydd cyfweliadau ar gyfer y swyddi'n cael eu cynnal yn Gymraeg.***
- ***Rhaid cynnal asesiad o sgiliau iaith pob aelod o staff, naill ai wrth iddynt gael eu penodi, neu fel rhan o drefniadau anwytho.***

I gyd-fynd â phwrpas yr adroddiad hwn, bydd y data yn adrodd ar staff prif adrannau'r Cyngor yn unig, gan eithrio staff GwE, Asiantaeth Cefnffyrdd, Byw'n Iach, Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru a staff ysgolion Gwynedd, gan nad ydynt yn gweithredu o dan y safonau. Mae'r gwaith o gasglu gwybodaeth am unigolion (aelodau staff) yn waith parhaus, ac **ni fydd y ffigyrau a nodir byth yn adlewyrchu union nifer y staff sy'n cael eu cyflogi gan y Cyngor.** Anelir, fodd bynnag, i gael y darlun cywiraf posib o sgiliau'r gweithlu ar unrhyw gyfnod. Mae trosiant staff, newidiadau mewn swyddi, ailstrwythuro, ac unigolion sydd yn dal mwy nag un swydd o fewn y Cyngor i gyd yn ffactorau sydd yn effeithio ar gywirdeb y data.

Mae'r system sgiliau iaith yn casglu a storio gwybodaeth am ddynodiadau iaith swyddi a sgiliau iaith staff. Golyga hyn y gallwn weld faint o staff sydd efo'r sgiliau iaith cyfatebol i ddynodiad y swydd a chynhyrchu adroddiadau byw, er mwyn tracio cynnydd a newidiadau ar draws adrannau.

Safon 154: Adrodd ar nifer swyddi y hysbysebwyd yn ystod y flwyddyn yn ôl pob "categori"

Mae **pob swydd** a gaiff ei hysbysebu gan y Cyngor yn nodi gofynion iaith fel sgil ***hanfodol***, h.y. mae angen rhyw elfen o sgiliau iaith ar gyfer pob swydd yn y Cyngor.

Bod sgiliau yn y Gymraeg yn **hanfodol** = *(nid yw'r nifer hwn yn cynnwys ail-hysbysebu)*	**850**
Bod angen dysgu sgiliau yn y Gymraeg pan benodir i'r swydd =	0
Bod sgiliau yn y Gymraeg yn ddymunol =	0
Nad oedd sgiliau yn y Gymraeg yn angenrheidiol =	0

Safon 151: Adrodd ar nifer y staff sydd efo sgiliau yn y Gymraeg

Gwelir yma fod 98.9% o staff y Cyngor gyda sgiliau yn y Gymraeg sy'n ostyngiad o 0.5% ers llynedd.

	2022-23		2023-24	
Nifer yr aelodau staff (sydd wedi eu hasesu ar y system sgiliau iaith**)**	**3886**		**4000**	
Staff sy'n meddu ar sgiliau yn y Gymraeg (o unrhyw fath**)**	2726	99.4%	3957	98.9%
Staff heb unrhyw sgiliau yn y Gymraeg	15	0.6%	43	1.1%

Fodd bynnag o edrych ymhellach yn ôl gwelwn fod y canran wedi gostwng dros y 6 mlynedd diwethaf o 6% yn 2018/2019 i 1.1%. yn 2023/2024.

	2018/19	2019/20	2020/21	2021/22	2022/23	2023/24
Staff heb sgiliau Cymraeg	6% (234)	0.1% (4)	0.3% (7)	0.9% (26)	0.6% (15)	1.1% (43)

Lefelau Iaith y staff fesul adran:

Mae'r graff a'r tabl isod yn dangos lefel iaith staff fesul adran.



	Addysg	Amgylchedd	Cyllid	Cefnogaeth Gorfforaethol	Economi a Chymuned	Oedolion, Iechyd a Llesiant	Plant a Chefnogi Teuluoedd	Priffyrdd, Peirianneg a YGC	Tai ac Eiddo	Tîm Arweinyddiaeth Corfforaethol
Hyfedredd	287	121	143	129	111	355	266	127	94	35
Uwch	138	72	73	86	58	253	103	102	71	11
Canolradd	51	20	5	5	11	87	19	22	19	1
Sylfaen	40	4	2	1	1	48	9	5	4	0
Mynediad	39	7	0	1	0	73	4	3	7	0
Dim sgiliau	15	0	0	0	1	23	1	1	2	0

Dynodiadau Iaith

Pob chwarter, mae tîm rheoli pob adran yn y Cyngor yn derbyn adroddiad gan y gwasanaeth Dysgu a Datblygu sy'n nodi'r darlun diweddaraf parthed nifer y staff sy'n cyrraedd dynodiadau iaith eu swydd a'u sgiliau iaith. Yn dilyn hyn, cynhelir cyfarfod o'r Fforwm Dynodiadau Iaith gyda chynrychiolaeth o'r holl adrannau er mwyn trafod canfyddiadau'r adroddiadau a sut i wella'r broses o gasglu asesiadau a thargedu hyfforddiant.

Mae'r Holiadur Hunanasesiad Sgiliau Iaith yn gorwedd ym mhorthol Hunanwasanaeth Staff y Cyngor, gyda'r Fforwm wedi adnabod anhawster mynediad ymysg staff heb gyfrif e-bost sy'n golygu nad ydynt yn cwblhau'r hunanasesiad. Mae'r sefyllfa wedi'i chydnabod mewn cynllun digidol sy'n mynd i sicrhau cyfeiriad e-bost swyddogol i bob aelod o staff maes o law.

Yn y cyfamser drwy drafodaethau'r Fforwm, cynhaliwyd peilot o asesiad syml i'w lenwi gan reolwyr ac unigolion ar y cyd gydag Adran Priffyrdd y Cyngor - a ymgyrchodd dros gyfnod o 3 mis i geisio sicrhau bod pob aelod o staff yn cael eu hasesu. Cododd lefel ymateb yr Adran o 58% i 96 % gan adnabod 13 aelod o staff nad oedd yn cyrraedd Dynodiadau Iaith eu swyddi. O'r rhain mae 4 eisoes yn dilyn cwrs hyfforddiant sgiliau Cymraeg ac eraill wedi, neu am gael ymgynghoriad 1 i 1 efo Swyddog Dysgu a Datblygu Cymraeg er mwyn eu cefnogi i gyrraedd y dynodiadau Iaith.

Nifer y staff sy'n cyrraedd dynodiad eu swydd

Gwelwn yma fod 92% o staff yn cyrraedd dynodiad iaith eu swydd sy'n gynnydd o 1% ers y flwyddyn flaenorol.

	2022-23		**2023-24**	
Staff sy'n cyrraedd Dynodiadau Iaith eu swydd	2679	91%	2962	92%
Staff nad ydynt yn cyrraedd Dynodiadau Iaith eu swydd	253	9%	275	8%

Asesu a Gosod Lefelau Iaith Swyddi – nifer y swyddi ar draws y Cyngor sydd wedi'u dynodi fesul lefel:

Er bod y Gymraeg yn sgil hanfodol ar gyfer pob swydd o fewn Cyngor Gwynedd, ceir dynodiadau iaith amrywiol o fewn y swyddi hynny gyda'r union ddynodiad yn dibynnu ar natur y swydd a'r cyswllt â'r cyhoedd.

Mae'r tabl isod yn amlygu dynodiadau iaith sydd wedi'u gosod ar gyfer swyddi cyfredol ar draws y Cyngor, gan gyfrifo'r lefel siarad a gwrando fel 'prif lefel', y lefel uchaf fel rheol, gan i lefel iaith amrywio rhwng y naill sgil a'r llall o fewn un swydd. Gwelir data 2022/23 wrth ochr data 2023/24.



Uwch yw'r lefel uchaf a osodir ar gyfer dynodiad iaith swydd, ond mae posib i sgiliau iaith yr unigolion gael eu hasesu ar lefel Hyfedredd. Mae hyn yn golygu bod nifer fawr o staff yn meddu ar sgiliau iaith sy'n uwch na'r angen ar gyfer eu swyddi. Ar gyfer y tabl hwn, mae'r lefel Uwch a Hyfedredd wedi'u categoreiddio gyda'i gilydd.

Wrth gymharu data eleni â'r un data o 2022/23, noder bod gostyngiadau sylweddol yn nifer y swyddi sydd wedi'u nodi gyda lefel iaith Mynediad, gyda gostyngiad o 73%. Mae nifer y swyddi sy'n cael eu dynodi i fod yn lefelau Uwch a hyfedr wedi dyblu dros y flwyddyn gyda 85% o swyddi yn galw am y dynodiad iaith hwn. Tabl sydd yn dangos datblygiad cadarnhaol iawn o fewn blwyddyn.

D) HYFFORDDIANT

Yn yr adran hon, ceir trosolwg o ddata yn ymwneud â hyfforddiant o fewn Cyngor Gwynedd. Yn unol â'n Polisi Iaith Gymraeg, mae Cyngor Gwynedd yn dilyn yr egwyddorion canlynol:

- **Bydd pob hyfforddiant a gynigir gan y Cyngor yn cael ei ddarparu yn Gymraeg.**
- **Cymerir pob cam i helpu staff i gymryd rhan yn yr hyfforddiant Cymraeg.**
- **Ni fydd hyfforddiant Saesneg yn cael ei gynnig ar gyfer pynciau craidd oni bai bod gwir angen.**

Dim ond pan fydd angen hyfforddiant mewn meysydd arbenigol, a phrynu gwasanaethau hyfforddwyr arbenigol i mewn y bydd hyfforddiant uniaith Saesneg yn cael ei gynnig. Hyd yn oed bryd hynny, gwneir pob ymdrech wrth gomisiynu gwasanaethau i gael deunyddiau dwyieithog a chymerir pob cyfle i geisio dylanwadu ar ddarparwyr cenedlaethol i wella darpariaeth hyfforddiant cyfrwng Cymraeg i'r sector cyhoeddus yn gyffredinol.

Safon 152: Adrodd ar nifer yr aelodau o staff a fynychodd gyrsiau hyfforddi

Hyfforddiant Cyffredinol

Er i'r Gwasanaeth Dysgu a Datblygu ddarparu hyfforddiant i adrannau eraill o fewn y Cyngor, mae'r data isod yn adrodd ar yr hyfforddiant a ddarparwyd i adrannau canolog sy'n atebol i ofynion y Safonau.

Nifer digwyddiadau unigol rhwng 01.04.23 a 31.03.24 - **262**
Nifer y teitlau (lefel Swydd/Sefydliad) rhwng 01.04.23 a 31.03.24 - **44**

Gwelir bod nifer y cyrsiau hyfforddiant Saesneg a dwyieithog wedi gostwng yn sylweddol o gymharu â'r llynedd.

Hyfforddiant Cyffredinol - nifer digwyddiadau

Y newid ers 2020:

	NIFER DIGWYDDIADAU			
	20/21	21/22	22/23	**23/24**
Cymraeg	289	524	428	223
Saesneg	305	402	295	44
Dwyieithog	92	46	169	4



Hyfforddiant Cyffredinol - nifer o fynychwyr



Y newid ers 2020:

	NIFER O FYNYCHWYR			
	20/21	21/22	22/23	**23/24**
Cymraeg	1044	`1612	1409	962
Saesneg	796	1032	881	274
Dwyieithog	453	159	519	18

Safon 128 - Adrodd ar hyfforddiant Cymraeg

Sicrhawyd bod staff yn cael cyfle i fynychu hyfforddiant Cymraeg yn yr amrywiol feysydd a nodir yn Safon 128 yn ystod y flwyddyn. Ceir yma fanylion nifer y staff a fynychodd weithdai croeso a derbyn hyfforddiant ymwybyddiaeth iaith.

73 unigolyn wedi mynychu'r gweithdy croeso yn y cyfnod 01.04.23 – 31.03.24
6 digwyddiad wedi ei gynnal.
Pob un trwy gyfrwng y Gymraeg ac wyneb yn wyneb.

Nifer sesiynau ymwybyddiaeth iaith yn ystod y flwyddyn **- 0**
Nifer staff sydd wedi cwblhau'r e-fodiwl Ymwybyddiaeth Iaith - lefel Cyngor ac adran - **522**

Hyfforddiant a ddarparwyd gan y Cyngor ar gyfer y Gwasanaeth BYW'N IACH:

Nifer digwyddiadau unigol rhwng 01.04.23 a 31.03.24 – 29
Nifer y teitlau rhwng 01.04.23 - 31.03.24 - 9

DIGWYDDIADAU HYFFORDDI	NIFER	MYNYCHWYR UNIGRYW
Cymraeg	**19**	**22**
Saesneg	10	**16**
Dwyieithog	0	**0**

Safon 130: Adrodd ar y cyfleoedd i ddysgu Cymraeg

Niferoedd Hyfforddiant Iaith i staff
Mae'r Cyngor yn cefnogi staff i ddatblygu eu sgiliau Cymraeg a thrwy'r prosiect dynodiadau iaith, mae modd cydnabod y staff sydd angen cefnogaeth, gyda chyllid ar gael i gynorthwyo â'r costau hynny. Mae'r data isod yn adlewyrchu'r nifer o staff sydd wedi mynychu cyrsiau fesul lefel yn ystod y flwyddyn ddiwethaf.

Gloywi	Uwch	Canolradd	Sylfaen	Mynediad	Blasu
30		6	6	22	3

Cyrsiau yn cynnwys rhai mewnol, cymunedol, rhithiol, hunan astudio, dwys a chomisiynau.

5 HERIAU WRTH SYMUD YMLAEN

Strategaeth Iaith
Gyda Strategaeth Iaith mewn lle, bydd angen datblygu'r rhaglen waith ymhellach a gweithredu'r cynlluniau. Bydd swyddogion yr Uned Iaith yn cyfarfod penaethiaid adran er mwyn sicrhau bod eu cynlluniau a'u blaenoriaethau yn cyfrannu at amcanion y strategaeth newydd. Bydd angen hefyd sicrhau bod trefniadau monitro priodol yn eu lle. Gobeithiwn hyrwyddo gwaith yr Uned Iaith ymhellach wrth rannu cynnwys y Strategaeth Iaith a'r prosiectau ymhellach ar gyfryngau cymdeithasol ac yn y wasg.

Hyfforddiant
Rhoddwyd sylw penodol dros y flwyddyn ddiwethaf, i leihau nifer y cyrsiau hyfforddiant uniaith Saesneg a dwyieithog gafodd eu cynnig. Braf yw gweld bod y nifer wedi gostwng a bod mwyafrif yr hyfforddiant sy'n cael eu cynnig yn cael eu cynnal yn Gymraeg. Serch hynny bydd angen cyd-weithio ymhellach gyda Gwasanaeth Dysgu a Datblygu'r sefydliad er mwyn adnabod y cyrsiau sy'n cael eu cynnal yn Saesneg a cheisio sicrhau eu bod ar gael yn y Gymraeg.

Byddwn yn adeiladu ar ymwybyddiaeth iaith ymysg staff a chynghorwyr, wrth hyrwyddo'r e-fodiwl mandadol ac ail-afael mewn sesiynau ymwybyddiaeth iaith byw, gan sicrhau eu bod yn gyfredol a chyfoes. Mae sesiwn eisoes wedi ei threfnu i gynghorwyr am eu rôl o fewn y gymuned o safbwynt y Gymraeg, wrth gydnabod bod negeseuon gwahanol i'w rannu gyda'r rhai sy'n ddi-Gymraeg.

Codi ymwybyddiaeth am ofynion y Safonau
Byddwn yn parhau i godi ymwybyddiaeth staff a thrigolion y Cyngor o Safonau'r Gymraeg a Pholisi Iaith Gymraeg Cyngor Gwynedd. Yn ogystal â pharhau i rannu nodweddion o'r polisi i staff yn y gair wythnosol, byddwn yn sicrhau bod y dogfennau yn hygyrch ac n hawdd i ddod o hyd iddynt ar wefan y cyngor a'r fewnrwyd staff.

Byddwn hefyd yn manteisio ymhellach ar dudalennau cymdeithasol yr Uned Iaith er mwyn trosglwyddo'r negeseuon. Wrth dderbyn hunanasesiadau adrannol blynyddol i adrodd ar gydymffurfiaeth â'r safonau, byddwn yn medru gweithredu ar yr heriau i godi ymwybyddiaeth staff o'r gofynion, fel bo'r angen. Yn dilyn trafodaeth gyda'r adrannau am ddiffyg ymwybyddiaeth am safonau'r Gymraeg ymysg rheolwyr rhai gwasanaethau, byddwn yn cynnal hyfforddiant byr i'w hatgoffa o'r prif faterion. Mae hwn yn waith parhaus gan fod trosiant staff yn her.

Staff heb sgiliau Cymraeg

Gwelwyd cynnydd yn nifer y staff sydd heb sgiliau Cymraeg yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. O ganlyniad byddwn yn ymchwilio i'r rhesymau tu ôl i hynny ac yn ystyried sut y gellir ceisio sicrhau bod y canran o staff heb sgiliau Cymraeg yn gostwng yn ystod y flwyddyn nesaf.

Mesur defnydd y cyhoedd o wasanaethau Cymraeg

Byddwn yn edrych ar sut i dreialu ffyrdd o fesur faint o drigolion sy'n dewis defnyddio gwasanaethau'r Cyngor drwy gyfrwng y Gymraeg mewn mannau fel derbynfeydd Siop Gwynedd, llyfrgelloedd, chanolfannau hamdden ac ar-lein. Gobeithir hefyd cael cyfle i edrych ar ganlyniadau ymchwil a wnaed dan ofal Prifysgol Bangor, gyda chymorth y Cyngor, sy'n edrych ar agweddau pobl tuag at ddefnyddio gwasanaethau cyfrwng Cymraeg. Hyderir y bydd hyn yn gwella ein dealltwriaeth o sut y gallwn ni ddylanwadu ar benderfyniadau ac annog mwy o bobl i ddefnyddio'r gwasanaethau cyfrwng Cymraeg (yn enwedig rhai digidol/ar-lein) sydd yn cael eu darparu gan y Cyngor.